Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 860 (Cy. 134) (C. 56)

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dygwyd y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") i rym gan adran 212 o'r Ddeddf honno ar 15 Mehefin 2023, sef drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1 (trosolwg);

(b) adran 209 (rheoliadau o dan y Ddeddf honno);

(c) adran 210 (dehongli);

(d) adran 211(3) a (4) (darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol mewn rheoliadau);

(e) adran 212 (dod i rym);

(f) adran 213 (enw byr).

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf 2023 sy'n weddill, ac eithrio adran 147, sy'n ymwneud â chamau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym bwerau penodedig i wneud rheoliadau a chyfarwyddydau ar 9 Medi 2024.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym y darpariaethau nad ydynt wedi eu cychwyn yn Neddf 2023 sy'n weddill, ac eithrio adran 147, at ddibenion sy'n weddill o 4 Tachwedd 2024 ymlaen.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 860 (Cy. 134) (C. 56)

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024

*Gwnaed* *16 Awst 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 212(2) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Cychwyn) 2024.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 9 Medi 2024**

**2.**—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym ar 9 Medi 2024—

(a) adran 14(3) (rheoliadau sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig);

(b) adran 26(5) a (6) (rheoliadau sy'n ymwneud â chytundebau partneriaethau henebion cofrestredig);

(c) adran 90(3), (4) a (5) (rheoliadau sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig);

(d) adran 91(1), (2) a (4) (rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiad o gais i berchnogion adeilad);

(**1**) 2023 dsc 3.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) adran 92(2) (rheoliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig);

(f) adran 95(4), (5), (6) a (7) (rheoliadau a chyfarwyddydau sy'n ymwneud â hysbysu Gweinidogion Cymru cyn rhoi cydsyniad);

(g) adran 100(4)(a) (rheoliadau sy'n pennu'r cyfnod penderfynu at ddibenion apelio);

(h) adran 101(3) a (5) (rheoliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwneud apêl);

(i) adran 105 (rheoliadau sy'n ymwneud â cheisiadau gan awdurdodau cynllunio a'r Goron);

(j) adran 114(5) (rheoliadau sy'n ymwneud â chytundebau partneriaethau adeiladau rhestredig);

(k) adran 156(1) a (3) (rheoliadau sy'n ymwneud ag adeiladau crefyddol esempt);

(l) adran 161(2)(c) (rheoliadau sy'n ymwneud â'r gofyniad i ddymchweliad gael ei awdurdodi);

(m) adran 170 (rheoliadau sy'n ymwneud â'r ffurf ar ddogfennau).

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym ar 9 Medi 2024 at ddiben gwneud rheoliadau—

(a) adran 102(1) (rheoliadau sy'n ymwneud â'r cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl);

(b) adran 103(2) (rheoliadau sy'n ymwneud â'r cyfnod ar gyfer penderfynu apêl);

(c) adran 106(5) (rheoliadau sy'n ymwneud â cheisiadau sy'n ymwneud â gwaith brys ar dir y Goron);

(d) adran 107(3)(a) (sy'n cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 8: y weithdrefn ar gyfer gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig);

(e) adran 146(1) (rheoliadau sy'n ymwneud â llog ar gostau gwaith diogelu a adenillir);

(f) Atodlen 8, paragraff 3(2)(a) (rheoliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn i orchmynion addasu neu ddirymu gymryd effaith heb gadarnhad).

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Tachwedd 2024**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym ar 4 Tachwedd 2024 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) Rhan 2;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) Rhan 3 ac eithrio adran 147 (camau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael);

(c) Rhannau 4 i 7;

(d) Atodlenni 1 i 14.

*Jane Hutt*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip, un o Weinidogion Cymru
16 Awst 2024